



cartrefi gwell, dyfodol disglair  
better homes, brighter future

**DATGANIAD I'R WASG**

**Dyddiad: 20 Rhagfyr 2010**



**Tai Ceredigion yn dathlu ei ben-blwydd cyntaf**

Mae Tai Ceredigion, y gymdeithas dai ddi-elw leol, wedi bod yn gweithredu ers blwyddyn, ers i'r stoc tai gael ei throsglwyddo o Gyngor Sir Ceredigion fis Rhagfyr diwethaf.

Cafodd y trosglwyddiad ei gymeradwyo gan fwyafrif y tenantiaid a bleidleisiodd, ac mae'n golygu bod llawer mwy o gyllid ar gael yn awr ar gyfer gwaith cynnal a chadw arfaethedig, gwelliannau i eiddo, a gwaith codi tai newydd ar gyfer pobl leol yn y tymor hwy.

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf mae Tai Ceredigion wedi bod yn gweithio'n galed i gyflawni 100 o'r 170 o addewidion a restrwyd yn ei ddogfen gynnig, mae wedi dechrau cyflawni 68 o rai eraill, ac nid yw ar ei hôl hi o safbwynt cyflawni'r un ohonynt. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn gweld y prif gontractau ar gyfer gwaith gwella cartrefi'n dechrau ar safleoedd ar draws y sir, a bydd gwahaniaethau mawr yn dechrau dod i'r amlwg.

Mae'r addewidion a gyflawnwyd yn cynnwys rhai'n ymwneud â chymorthfeydd tai, ymweliadau ag ystadau, gwasanaethau ffôn rhad ac am ddim ar gyfer atgyweirio ac argyfyngau y tu allan i oriau gwaith arferol, côd ymddygiad Tai Ceredigion i gontractwyr, safon ar gyfer llety rhent, gwelliannau sy'n sicrhau llwyddiant cyflym, ac addasiadau brys i bobl anabl, ac rydym hefyd wedi sicrhau bod tenantiaid yn cael eu cynnwys yn fwy helaeth. Mae hawliau presennol tenantiaid wedi'u hamddiffyn, ac rydym wedi cadw ein haddewid o ran rhent.

Meddai Steve Jones, Prif Weithredwr Tai Ceredigion: "Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi ein cefnogi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ers trosglwyddo'r stoc tai. Mae wedi bod yn flwyddyn brysur iawn, ac rydym yn gwerthfawrogi amser, ymdrech a barn pawb.

Ymysg yr uchafbwyntiau yr oedd sefydlu'r Bwrdd a llawer o grwpiau a fforymau megis Grŵp Monitro'r Tenantiaid; sefydlu partneriaethau allweddol â'r Cyngor Sir, Cyngorau Cymuned Lleol, mudiadau yn y sector gwirfoddol a'r sector gofal i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau lleol; sefydlu contractau lleol; dechrau gwneud gwelliannau i gartrefi gwag; sicrhau grantiau ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd ynni; a chynnal ein Cynhadledd Tenantiaid a'n Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf erioed. Rydym hefyd wedi sefydlu'r cynllun cyfranddalwyr, sy'n rhoi'r hawl i unrhyw un ddod yn un o gyfranddalwyr Tai Ceredigion a chael yr hawl i bleidleisio.

Wrth symud ymlaen rydym wedi bod yn cynnwys tenantiaid, staff, aelodau'r Bwrdd, a phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol wrth baratoi Cynllun Busnes newydd ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, gyda'r bwriad o gyflawni'r nodau ehangach a addawyd gan Fwrdd Tai Ceredigion yn y ddogfen gynnig, sy'n cynnwys helpu'r gymuned a'r economi leol."